**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddEconomy@senedd.wales

11 Rhagfyr 2025

Annwyl Andrew,

Diolch am eich llythyr ar Gytundeb Masnach Rydd rhwng yr UE a Mercosur.

Fel y gwyddoch, daeth yr UE a gwledydd Mercosur i gytundeb gwleidyddol ym mis Rhagfyr y llynedd a disgwylir y bydd y cytundeb yn cael ei lofnodi ym mis Rhagfyr 2025.

Er bod hyn yn gam ymlaen yn y trefniadau masnachu rhwng y gwahanol bartïon, ar ôl tua 20 mlynedd o drafodaethau, nid yw'r cytundeb wedi dod i rym eto a bydd angen ei gadarnhau gan o leiaf 15 o aelod-wladwriaethau'r UE. Mae heriau posibl eraill a allai rhwystro'r cytundeb rhag dod i rym yn llawn, ac mae llawer o agweddau ar y cytundeb mewn perthynas â mynediad i'r farchnad yn cael eu cyflwyno'n raddol dros 15 mlynedd.

O safbwynt Cymru, yr UE yw'r farchnad allforio fwyaf, gyda 56.8% o allforion nwyddau Cymru yn mynd i'r UE yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025. Mae hyn yn uwch na'r 48.4% ar lefel y DU, sy'n awgrymu bod Cymru'n fwy dibynnol ar farchnad allforio'r UE na'r DU gyfan. Mae'r data diweddaraf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025 yn dangos bod gwerth masnach nwyddau Cymru i'r UE yn £17.6bn, ac roedd mewnforion ac allforion yn werth £7.9bn a £9.7bn, yn y drefn honno.

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025, roedd masnach nwyddau Cymru gyda Mercosur yn werth £351.6m, ac o'r rhain roedd mewnforion ac allforion yn £172.6m a £179.1m yn y drefn honno. Mae'r data diweddaraf hyn yn dangos bod tua 1.0% o allforion a 0.8% o fewnforion rhwng Cymru a gwledydd partner Mercosur.

Ar hyn o bryd, byddai unrhyw ddadansoddiad y gellid ei gynnal ar newidiadau posibl yn y farchnad yn y dyfodol sy'n deillio o gytundeb rhwng yr UE a Mercosur sydd eto i ddod i rym yn hynod dybiannol ac yn ddibynnol ar nifer sylweddol o newidynnau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae ymadawiad y DU o'r UE hefyd yn ein heithrio rhag ceisio unrhyw fesurau, megis cwotâu tariff i gael eu cynnwys i gynnig rhywfaint o amddiffyniad neu ddiogelwch i'n diwydiannau mewn cytundeb masnach nad yw'r DU yn barti iddo.

Rwyf wedi siarad ag aelodau o'r Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach i gasglu barn ar gytundeb rhwng y DU a Mercosur, gan gynnwys ei effeithiau posibl ar Gymru. Codwyd pryderon gan rai aelodau y gallai cytundeb rhwng y UE a Mercosur fod anfantais gystadleuol i allforwyr Cymru unwaith y bydd y cytundeb yn cael ei gadarnhau, gan gynnwys y gystadleuaeth gynyddol ym marchnad yr UE gan fewnforion Mercosur.

Fel gydag unrhyw gytundeb y mae'r UE yn ei gwblhau, mae effeithiau posibl ar fusnesau y DU a Chymru. Gall unrhyw arferion masnachu anghymesur neu annheg neu newidiadau yn y farchnad sy'n cynyddu cystadleuaeth i'n ffermwyr neu gynhyrchwyr bwyd mewn modd annheg gael eu uwchgyfeirio trwy Awdurdod Rhwymedïau Masnach y DU. Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad rhwng y DU a'r UE hefyd yn cynnwys mecanweithiau i drafod unrhyw arferion annheg.

Byddwn yn gweithio gyda phob parti i sicrhau y gallwn adolygu unrhyw newidiadau a chymryd camau priodol yn ôl yr angen.

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning